Diweddarwyd Rhagfyr 2025

# Dileu elw o Ofal plant

## Negeseuon allweddol i'r rhai sy'n gweithio mewn cartrefi i blant

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

### Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn cartrefi plant. Mae'n nodi'r negeseuon allweddol am bolisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae wedi'i llunio gan Lywodraeth Cymru gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector cartrefi plant.**

**Rydym yn cydnabod gwerth y gweithlu cartrefi plant a'r rôl allweddol rydych chi'n ei chwarae ym mywydau'r plant rydych yn gweithio gyda nhw a'ch ymrwymiad i gefnogi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd eich sgiliau, eich ymrwymiad a'ch profiad yn parhau i fod yn gwbl hanfodol wrth inni ddechrau gweithredu'r polisi hwn yng Nghymru.**

### Beth yw'r newidiadau hyn?

**Pedwar pwynt pwysig**

1. O 1 Ebrill 2026 ymlaen bydd cyfraith newydd yn dechrau dod i rym yng Nghymru. Yn y pen draw bydd yn atal pob cartref plant a gwasanaeth maethu yng Nghymru rhag gwneud elw preifat.
2. Byddwn yn dod â'r gyfraith i rym yn raddol i leihau unrhyw darfu ar blant a gofalwyr gymaint â phosibl a gwneud yn siŵr ei bod yn darparu'r manteision a fwriedir.
3. Byddwn yn gweithio gyda chynghorau lleol, darparwyr gofal, asiantaethau, undebau llafur a grwpiau plant wrth inni wneud y newidiadau hyn. Rydym yn awyddus i helpu unrhyw ddarparwyr y mae hyn yn effeithio arnyn nhw, a'u cyflogeion, i wneud penderfyniadau sy'n gywir iddyn nhw.
4. Ynghyd ag eraill yn y sector byddwn yn rhoi arweiniad, cymorth ac adnoddau i chi, ac i'r rhai rydych yn gofalu amdanyn nhw, i reoli'r newidiadau mewn modd esmwyth a di-dor. Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi, eich cynnwys a'ch cefnogi yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

## Cefndir y polisi

- Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad ers tro (drwy ei **Rhaglen Lywodraethu**) i ddileu gallu darparwyr gofal i wneud elw preifat o'r gwasanaethau gofal sy'n cael eu darparu i blant sy'n derbyn gofal.
- Pan ydym yn sôn am ddarparwyr gofal, rydym yn golygu cartrefi gofal i blant, gwasanaethau llety diogel, a gwasanaethau maethu ar gyfer y plant hynny sydd angen gofal.
- Mae'r newidiadau rydym yn eu gwneud yn rhan o becyn o welliannau i'r ffordd y mae plant yn derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y bydd plant a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau posibl, gan ddarparu'r hyn sydd ei angen arnyn nhw, a hynny mor agos at eu cartref a'u teulu â phosibl.
- Er mwyn gwella'r gwasanaethau hyn, rhaid gwario'r arian ar gyfer y gwasanaethau hynny mor effeithiol â phosibl. Dylid ei wario ar greu cartrefi plant a gwasanaethau maethu gwell ac ar helpu i gefnogi a datblygu'r gweithlu yn hytrach na'i ddefnyddio i wneud elw preifat.




## Sut ydym yn gwneud y newidiadau hyn?

**Rydym yn gwneud y newidiadau hyn drwy gyfraith newydd o'r enw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 a fydd mewn grym yng Nghymru.**

## Pa newidiadau fydda i'n eu gweld?

- Bydd hyn yn dibynnu ar y math o sefydliad rydych chi'n gweithio iddo.
- Os ydych yn gweithio i ddarparwr nid-er-elw (er enghraifft elusen neu awdurdod lleol) yna rydych yn llai tebygol o weld newidiadau mawr. Os ydych yn gweithio i ddarparwr er elw, efallai y byddwch yn gweld rhai newidiadau yn y blynyddoedd i ddod. Os nad ydych yn gwybod pa fath o sefydliad rydych yn gweithio iddo, dylech siarad â'ch rheolwr yn y lle cyntaf.
- Efallai y bydd rhai darparwyr er elw yn newid i fod yn sefydliad nid-er-elw er mwyn parhau i gynnal eu gwasanaethau yng Nghymru. Bydd eraill, o bosibl, yn dewis darparu mathau gwahanol o ofal, er mwyn aros yn sefydliad er elw. Mae'n bosibl y bydd rhai'n rhoi'r gorau i weithredu. Dylai cyflogwyr roi gwybod ichi am eu cynlluniau.
- Bydd cartrefi plant a gwasanaethau maethu yn dal i gael eu cynnal gan wahanol ddarparwyr yng Nghymru, ond yn y pen draw, awdurdodau lleol neu ddarparwyr nid-er-elw fydd y rhain. Weithiau, efallai y byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd os oes gan y darparwr nid-er-elw fwy o brofiad o redeg cartrefi plant.



## Beth fydd hyn yn ei olygu i mi?

- Byddwn angen eich sgiliau, eich ymrwymiad a'ch profiad o hyd i gefnogi plant – bydd cartrefi plant yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r cymysgedd o ofal sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru yn y dyfodol.
- Mae amser ar gael i ddarparwyr cartrefi plant sydd â model busnes 'er-elw' i feddwl am yr hyn y maen nhw am ei wneud yn y dyfodol. Bydd y cyfnod hwn hefyd yn helpu awdurdodau lleol i gynllunio sut y byddan nhw'n darparu gofal plant ar sail nid-er-elw yn eu hardal. Mewn llawer o achosion bydd awdurdodau lleol yn creu mwy o'u gwasanaethau (mewnol) eu hunain gan gynnwys cartrefi plant. Byddan nhw hefyd yn helpu darparwyr nid-er-elw i wneud yr un peth.
- Mewn rhai achosion gallai awdurdod lleol brynu gwasanaeth cartref plant er elw, neu gallai darparwr er elw newid i fod yn ddarparwr nid-er-elw. Mewn achosion o'r fath efallai y byddwch yn cael eich gwarchod gan rywbeth o'r enw TUPE. Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) yw TUPE ac maen nhw'n gallu bod yn berthnasol pan fydd busnes yn newid perchennog.

  Pan fydd TUPE yn berthnasol:

  – mae swyddi'r cyflogeion fel arfer yn trosglwyddo i'r cwmni newydd (gyda rhai eithriadau posibl)
  – mae eu telerau ac amodau cyflogaeth yn trosglwyddo
  – mae parhad cyflogaeth yn cael ei gynnal
- Byddem yn disgwyl i'ch cyflogwr roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi os bydd yn ystyried newid perchnogaeth. Mae Atodiad A ar y dudalen nesaf yn nodi o ble y gellir cael cymorth pellach.

## Pryd fydd y newid hwn yn effeithio arna i?

- Mae Deddf 2025 bellach yn derfynol. Fodd bynnag, ni fydd y newidiadau'n digwydd ar unwaith.
- Er mwyn sicrhau bod pethau'n rhedeg mor esmwyth a phosibl, bydd gwahanol rannau o'r gyfraith yn dod i rym ar wahanol adegau, sef:

**O 1 Ebrill 2026 ymlaen**

**Ni chaniateir i gartrefi plant, gwasanaethau llety diogel na gwasanaethau maethu 'er-elw' newydd gofrestru.**

**Ni chaiff darparwyr presennol cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel na gwasanaethau maethu amrywio eu cofrestriad i ychwanegu gwasanaeth neu leoliad 'er-elw' newydd.**

**O 1 Ebrill 2027 ymlaen**

**Nid oes modd ychwanegu unrhyw welyau ychwanegol i gartrefi plant 'er-elw' presennol.**

**Dim gofalwyr maeth newydd yn cael eu cymeradwyo gan ddarparwyr presennol 'er-elw' gwasanaeth maethu.**

**O 1 Ebrill 2030 ymlaen (neu'n gynharach)**

**Ni ellir rhoi plant yng ngofal darparwr 'er-elw' ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.**

*(Er enghraifft, os nad oes lleoedd addas ar gael mewn gwasanaethau nid-er-elw).*

# Atodiad A – Cwestiynau Cyffredin

**Ar sail ein trafodaethau â'r sector hyd yma, dyma rai cwestiynau cyffredin a allai fod gennych.**

## Beth fydd fy nghyflogwr yn ei wneud?

Rydym yn eich cynghori i siarad â'ch cyflogwr. Bydd yr hyn y mae'n dewis ei wneud yn dibynnu ar a yw'n awdurdod lleol, yn sefydliad nid-er-elw (er enghraifft elusen) neu'n sefydliad er elw (er enghraifft cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfrannau). Efallai y bydd rhai cyflogwyr yn dal i benderfynu beth fyddan nhw'n ei wneud, ac efallai fod eraill eisoes wedi penderfynu (er enghraifft efallai y bydd darparwr er elw yn penderfynu ailsefydlu ei fusnes yn un nid-er-elw). Mae'n bwysig bod eich cyflogwr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ei gynlluniau.

## Gyda phwy y galla i siarad os oes gen i unrhyw gwestiynau neu bryderon?

- Bydd Undebau Llafur fel UNSAIN a GMB yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar strategaeth ar gyfer y gweithlu a fydd yn ceisio cynnig cymorth, cyngor ac arweiniad ar bob mater yn ymwneud â'ch cyflogaeth, yn enwedig diogelwch swydd, amddiffyniadau a hawliau TUPE, cyflog ac amodau. Yn ogystal, gall aelodau o undebau llafur ofyn am gynrychiolaeth ar broblemau unigol a materion sy'n effeithio ar gyflogeion ar y cyd, pan fo pryderon neu ansicrwydd ynghylch cyflogwr neu weithle yn ystod y cyfnod pontio. Mae ganddyn nhw rwydweithiau o gynrychiolwyr lleol hyfforddedig a phrofiadol sydd ar gael i gynnig cymorth. Pan fo'r pryderon yn rhai difrifol neu gymhleth, gall undebau ddarparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i sicrhau bod aelodau'n cael eu hamddiffyn ac y gwneir iawn am driniaeth annheg.
- Mae gan Undebau Llafur gynrychiolwyr sy'n brofiadol mewn materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Byddan nhw'n cynnig cymorth, arweiniad a chynrychiolaeth i aelodau mewn unrhyw fater sy'n ymwneud â gwahaniaethu.
- Os oes angen unrhyw help neu gymorth arnoch ar gyfer eich iechyd meddwl a'ch llesiant, mae gwasanaeth Canopi ar gael yn rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: **www.canopi.nhs.wales/cy/hafan/**
- Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael i gefnogi llesiant staff; gallwch gael rhagor o wybodaeth yn: **www.gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/adnoddau-iechyd-a-llesiant/llesiant-gofalu-amdanoch-eich-hun-yn-y-gwaith**

## Beth fydd yn digwydd i'r plant rydym yn gofalu amdanyn nhw?

Mae'r polisi wedi'i gynllunio i leihau unrhyw darfu ar blant gymaint â phosibl. Gall plant aros yn eu cartrefi os yw darparwr yn dewis parhau i weithredu.

## Beth os bydd y plant rwy'n gofalu amdanyn nhw'n gofyn cwestiynau i mi am effaith hyn arnyn nhw?

**Bydd gan blant a phobl ifanc gwestiynau am y newidiadau a beth fydd yr effaith bosibl arnyn nhw, eu brodyr a'u chwiorydd a'u ffrindiau. Wrth reswm, efallai y bydd ganddyn nhw gwestiynau i chi.**

**Mae'r gyfraith yn diogelu hawliau plant. Mae hyn yn cynnwys eu hawl i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Gallwch chi a'r plant rydych yn gofalu amdanyn nhw gael gwybod mwy yn www.complantcymru.org.uk/**

**Rydym hefyd wedi llunio dogfen fel yr un yma i blant a phobl ifanc i geisio ateb rhai o'u cwestiynau – mae'r ddogfen honno ar gael yn www.llyw.cymru/newid-i-fodelau-gofal-nid-er-elw-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal-yng-nghymru-taflenni-gwybodaeth.**

**Mae'r negeseuon allweddol yr un fath â'r rhai yn y ddogfen hon. Dyma rai atebion posibl ichi eu defnyddio mewn ymateb i gwestiynau:**

> "Mae'r newidiadau yma'n cael eu gwneud mewn ymateb i farn rhai plant yng Nghymru am y ffaith eu bod nhw'n ffynhonnell o elw preifat, ac effaith hyn arnyn nhw a'u teulu."

> "Bydd y newidiadau'n golygu bod unrhyw arian sy'n cael ei wario ar ofal plant yn mynd yn uniongyrchol ar ofalu am blant."

> "Efallai na fydd y newidiadau yma'n effeithio arnat ti'n uniongyrchol ond os ydyn nhw'n effeithio ar dy ofal di, bydd hyn yn cael ei gynllunio a'i wneud yn raddol ar yr amser iawn i ti. Byddi di'n cael dy gynnwys mewn penderfyniadau a chynlluniau ac yn gwybod beth sy'n digwydd."

**Mae gan bob plentyn a pherson ifanc mewn gofal yr hawl i wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol. Gall y gwasanaethau hyn ddarparu gwybodaeth am y gwaith ar ddileu elw o ofal plant. Gallan nhw hefyd helpu'r plant a'r bobl ifanc yn eich gofal i fynegi eu barn mewn unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynglŷn â ble maen nhw'n byw/ble byddan nhw efallai'n byw yn y dyfodol.**
**Mae dau ddarparwr eiriolaeth yng Nghymru. Dyma'r manylion:**

- Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru yn darparu eiriolaeth statudol i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal ac sy'n rhan o'r system amddiffyn plant yn ardaloedd Gwent, Caerdydd a'r Fro ac Abertawe/Castell-nedd Port Talbot.
  Yng Nghaerffili a Blaenau Gwent mae eiriolaeth ar gael i unrhyw blentyn neu berson ifanc.
- Mae NYAS hefyd yn darparu ymweliadau eirioli preswyl mewn cartrefi plant mewn rhai ardaloedd ac mae ganddyn nhw wasanaethau eirioli i rieni ledled rhanbarthau Gwent a Chaerdydd a'r Fro.
- I ddefnyddio gwasanaeth cyngor rhadffôn NYAS gall plant a phobl ifanc ffonio **0808 808 1001** neu ymweld â'r wefan – **www.nyas.net**
- Mae Tros Gynnal Plant (TGP Cymru) yn cynnig Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal neu sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys o natur amddiffyn plant, yng Ngogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Chwm Taf Morgannwg.
- Mae hefyd yn darparu ymweliadau eirioli preswyl ar gyfer cartrefi preswyl awdurdodau lleol yn y rhanbarthau hyn.
- I gael rhagor o fanylion, ewch i'r wefan – **www.tgpcymru.org.uk/cy** neu cysylltwch â'r gwasanaethau rhanbarthol yn uniongyrchol:
  - Y Gogledd
    **01286 238007 / 0800 111 6880**
    **northwalesadvocacy@tgpcymru.org.uk**
  - Y Canolbarth a'r Gorllewin
    **01545 571865 / 0808 168 2599**
    **midandwestwales@tgpcymru.org.uk**
  - Cwm Taf Morgannwg
    **01443 805940 / 0800 4703930**
    **cwmtafmorgannwg@tgpcymru.org.uk**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53595, ISBN digidol 978-1-80633-876-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg